NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Trosglwyddo nerfau er mwyn adfer swyddogaeth breichiau pobl sydd â thetraplegia

25 Ebrill 2018

Nid oes unrhyw bryderon diogelwch mawr ynghylch y driniaeth hon, ond nid oes llawer o dystiolaeth dda am ba mor dda y mae'n gweithio. Gellir defnyddio'r driniaeth hon, ond dim ond pan fydd cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda y mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau.

Mae tetraplegia yn golygu bod y breichiau a'r coesau wedi'u parlysu'n rhannol neu'n gyfan gwbl o ganlyniad i niwed i'r nerfau a achoswyd gan drawma i linyn y cefn yn y gwddf. Gall rhai pobl sydd â niwed i'r nerfau yn rhan isaf y gwddf gael trosglwyddiad nerfau er mwyn ceisio gwella swyddogaeth y breichiau. Mae'r driniaeth hon yn cynnwys cysylltu nerf nad yw'n hanfodol, nad yw wedi'i difrodi ac sy'n gweithio'n iawn sy'n agos at yr anaf, i'r nerf hanfodol sydd wedi'i niweidio. Y nod, gyda therapi arbenigol, yw adfer rhywfaint o gryfder yn y cyhyrau a gyflenwir gan y nerf, a gwella swyddogaeth y breichiau a'r dwylo.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

**A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-2895-8

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights